| CYNGOR SIR YNYS MÔN | |
|---|---|
| **PWYLLGOR :** | **PWYLLGOR ARCHWILIO** |
| **DYDDIAD :** | **25 MEDI 2012** |
| **TEITL YR ADRODDIAD :** | **CYFRIFON TERFYNOL 2011-12** |
| **PWRPAS YR ADRODDIAD:** | **ADRODDIAD EGLURHAOL AR GYFER CYFLWYNO DATGANIAD CYFRIFON TERFYNOL, GAN RODDI SYLWADAU AR Y PRIF FATERION YN DEILLIO O'R ARCHWILIAD O'R CYFRIFON** |
| **ADRODDIAD GAN :** | **PENNAETH SWYDDOGAETH (ADNODDAU) A SWYDDOG 151 DROS DRO** |
| **GWEITHREDU:** | **ARGYMELL DERBYN Y DATGANIAD CYFRIFON** |

## 1. CEFNDIR

**1.1** Cyflwynwyd cyfrifon drafft 2011-12 y Cyngor Sir i'w harchwilio ar 29 Mehefin 2012. Mae'r gwaith archwilio manwl nawr wedi ei gwblhau'n sylweddol a rhyddhawyd Adroddiad yr Archwilydd. Mae'r cyfrifon yn awr wedi cael eu diwygio fel y cytunwyd gyda'r Archwilydd Allanol. Yn amodol ar gadarnhad y Cyngor Sir, mae'r cyfrifon i'w llofnodi gan y Pennaeth Swyddogaeth (Adnoddau) a Swyddog Adran 151 Dros Dro ac, yn dilyn derbyn barn yr Archwilydd, bydd yn cael ei gyhoeddi.

## 2. AGWEDDAU SAFON

**2.1** Yn dilyn dwy flynedd pan gyhoeddwyd y cyfrifon terfynol wedi eu harchwilio yn hwyr, rwy'n falch o gyflwyno'r cyfrifon wedi eu harchwilio yma i'w cymeradwyo erbyn y dyddiad cau statudol. Mae cydnabyddiaethau'r Archwilydd yn gredyd i swyddogion y Cyngor, yn y Tîm Cyfrifwyr ac mewn nifer o wasanaethau, ynghyd â'r staff dros dro a arweiniwyd y broses.

**2.2** Rwyf hefyd yn falch i gydnabod y gwelliannau yn y broses archwilio eleni, gyda mwy o eglurder ynglŷn â'r disgwyliadau am bapurau gwaith a gwell cyfathrebu o faterion yn codi. Darparwyd y papurau gwaith llawer ynghynt yn y broses, a thrwy hynny hwyluso proses archwilio llawer mwy esmwyth. Cyfeiriwyd unrhyw broblemau'n brydlon a chawsant eu datrys mewn modd boddhaol.

## 3. NEWIDIADAU I'R CYFRIFON

**3.1** Darperir nodyn ar y prif newidiadau sydd wedi eu gwneud i'r cyfrifon ac sydd angen eglurhad yn Atodiad 3 o Adroddiad yr Archwilydd, felly ni restrir nhw yma. Efallai y bydd mân gywiriadau o'r geiriau a chysondeb i'w gwneud eto cyn arwyddo'r cyfrifon.

**3.2** Mae'r rhan helaeth o'r addasiadau roedd eu hangen wedi eu cyfyngu i newidiadau yn adlewyrchu'r arfer gorau ymddangosol:

- Asedau Treftadaeth : Datgelodd y Datganiad Cyfrifon drafft yr eitemau yma fel 'Asedau Treftadaeth Gweithredol' ar sail memo, tra'n parhau i gyfrifo amdanynt o dan Eiddo, Offer a Chyfarpar. Wedi hynny, daeth rhagor o

wybodaeth i law ar arfer gorau ymddangosol yn y maes yma ac ar sail hyn fe gytunwyd dylid ailddosbarthu'r eitemau'n llawn i Asedau Treftadaeth.

- Casgliad Celf: Roedd y diwygiad yma'n ymwneud â mater ailddatganiad technegol yn unig, gyda'r cyflwyniad amgen yn cael ei farnu i gynrychioli'n well y sylwedd o symudiadau prisiad.

## 4. EITEMAU NAD YDYNT WEDI EI HADDASU

**4.1** Mae Adroddiad yr Archwilydd yn adnabod pedwar 'gamddatganiad heb ei gywiro' yn Atodiad 3.

- Darpariaeth ôl-ofal yn safle Tirlenwi Penhesgyn: Rhoddir manylion amdano ym mharagraffau 26 i 29 o'r Adroddiad. Codwyd y mater fel eitem heb ei addasu y llynedd ac ym mlynyddoedd y gorffennol. Unwaith eto, mae'r trafodaethau a gafwyd ynglŷn â'r mater wedi bod yn adeiladol ac o gymorth yn amlygu ymhellach y materion allweddol a'u heffaith cyllidol posibl. Fodd bynnag, y farn oedd bod darpariaeth ddigonol wedi ei wneud yn barod ac nid oedd angen gwneud rhagor (gweler hefyd paragraff 36 o'r Adroddiad). Mae'r Archwilydd yn cadarnhau fod y swm yn is na'i lefel perthnasedd. Os yw'r Pwyllgor yn cytuno â'r safbwynt yma, ni fydd angen gwneud addasiad a bydd y Cyngor yn gwneud sylwadau ffurfiol i'r perwyl yma i'r Archwilydd. Cynhwysir hyn yn y Llythyr Sylwadau Terfynol drafft yn Atodiad 1 o Adroddiad yr Archwilydd.

- Tair eitem, yn netio i £1k, yn ymwneud â gwallau - neu gwallau allosod - o lynu wrth y dyddiad cau ar gyfrifon yn daladwy. Mae gwallau bychan ynglŷn â glynu wrth y dyddiad cau yn isgynnyrch o gau'r cyfrifon yn fuan a nid yw swyddogion yn ei ystyried yn addas i wneud newidiadau i'r cyfrifon am symiau sydd mor isel o dan y lefel perthnasedd.

## 5. NEWIDIADAU HWYR A GWYBODAETH YCHWANEGOL

**5.1** Daw nifer o eitemau gwybodaeth ynghyd yn y Datganiad Cyfrifon sy'n gyfrifoldeb trydydd parti ond sydd yn effeithio sefyllfa ariannol y Cyngor. Rydym yn dwyn sylw'r Pwyllgor yma i unrhyw feysydd sy'n peri pryder. Eleni, dymunaf dynnu sylw'r Pwyllgor i sefyllfa Gronfa Bensiwn Gwynedd. Ar gyfer 2011-12 roedd perfformiad y Gronfa yn 77fed allan o 84 cronfa yn y tabl cynghrair perthnasol ac yn y 92fed canran gyda dychweliad o 0.5% o'i gymharu a median o 3.0%. Priodolwyd y perfformiad isel yma i un o'r cronfeydd a berfformiodd yn sylweddol is na'r meincnod. Cymerodd y Pwyllgor Pensiynau yng Ngwynedd camau gweithredu i ddisodli rheolwyr y gronfa roedd yn tanberfformio ac maent wedi sicrhau y cyflogwyr arall eu bod yn disgwyl i berfformiad wella. Eglurir y perfformiad yn Adroddiad Blynyddol Cronfa Bensiwn Gwynedd 2011-12.

## 6. DATGANIAD LLYWODRAETHU CORFFORAETHOL BLYNYDDOL 2011-12

Mae'r Datganiad Llywodraethu Blynyddol ar gyfer 2011-12 wedi ei gynnwys yn y Datganiad Cyfrifon. Cymeradwywyd hwn yn ei ffurf ddrafft yng nghyfarfod Mehefin o'r Pwyllgor Archwilio. Ers hynny, mae'r Cyngor wedi derbyn ei adroddiad gan Estyn yn dilyn yr arolygiad diweddar. Wedi hynny, fe ddiweddarwyd y datganiad ar y mater yma i adlewyrchu'r goblygiadau llywodraethu i'r Cyngor. Hwn, ynghyd â rhai newidiadau mân i geiriad, yw'r unig ddiwygiadau a wnaed i'r drafft ers ei gyflwyno ym Mehefin.

## 7. NEWID I'R BROSES CYMERADWYO

**7.1** O ganlyniad i'r newidiadau yng nghyfansoddiad y Cyngor eleni, mae'r cyfrifoldeb am gymeradwyo'r cyfrifon bellach hefo'r Cyngor Sir. Mae'r cyfrifoldeb am sgriwtineiddio'r cyfrifon yn parhau hefo'r Pwyllgor Archwilio. Rwyf, felly, yn argymell fod y Pwyllgor Archwilio yn gwneud argymhelliad i'r Cyngor Sir ar 27 Medi 2012.

## 8. ARGYMHELLIAD

**8.1** Argymhellir fod y Pwyllgor yn:

**(a)** argymell fod y Cyngor Sir yn cadarnhau derbyn y Datganiad Cyfrifon; a

**(b)** cadarnhau nid oes angen gwneud darpariaeth bellach, ar yr adeg yma, ar gyfer costau ôl-ofal safle gwastraff Penhesgyn.

**(c)** cadarnhau ni ddyled gwneud addasiadau mewn perthynas â chyfrifon yn daladwy.

**GILL LEWIS**
**PENNAETH SWYDDOGAETH (ADNODDAU)**
**A SWYDDOG ADRAN 151 DROS DRO** **17 MEDI 2012**